PECYN ADDYSG

I'w ddefnyddio gyda'r
DVD **LLE DIOGEL**

LLE DIOGEL

CHWALU MYTHAU HILIOL AM GEISWYR LLOCHES

Dangos y Cerdyn **COCH** i Hiliaeth

CYNNWYS

Nod y Pecyn	1
Cyn Gwylio'r Ffilm	1
PENODAU:	
1. Cyflwyniad	2
2. Celwydd y Cyfryngau	5
3. Rhyfel y Llwythi	8
4. Bywyd mewn Bag	10
5. Adeiladu Dyfodol	12
6. Byw ar y Blaned Mawrth	13
7. Symud Ymlaen	15
8. Cartref	16
9. Chwarae Teg	18
Cwestiynau a ofynnir yn aml	19
Cwis	21

CYDNABYDDIAETHAU

Ysgrifennwyd gan: Sarah Soyei, Laura Fleck, Conrad Franks, Lizz Bennett.

Diolch hefyd i: Paul Burgess, Undeb Cenedlaethol yr Athrawon a Sefydliad Addysgol yr Alban.

Gallwch weld enwau Sefydliadau a Gwefannau defnyddiol ar y dudalen ddolenni ar **www.theredcard.org**

MANYLION CYSYLLTU:

Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru

65 Ffordd Penarth
Grangetown
Caerdydd CF10 5DL

Ffôn: 02920 340 422

ebost: info@theredcardwales.org
www.theredcardwales.org

Rhif Elusen Gofrestredig: 1116971
Rhif Cofrestru'r Cwmni: 5834708

© Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

DEFNYDDIO'R DVD A'R PECYN ADDYSG

Mae is-deitlau ar gael ar y DVD. Yn syml, cychwynnwch y ffilm ac yna dewiswch is-deitlau gyda'ch llygoden neu'ch botymau.

Cafodd y pecyn hwn ei lunio i gyflenwi ac ychwanegu at yr wybodaeth sydd yn y DVD cysylltiedig. Y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio'r ffilm 'Lle Diogel' fel pecyn addysg yw ei sgrinio mewn adrannau. Hyd cyfan y ffilm yw 16 munud a 27 eiliad ac mae ganddi 9 prif bennod y mae'r adrannau yn y pecyn hwn yn cyfateb â nhw.

Er ei bod hi'n anodd awgrymu un dull neu ffordd orau o ddefnyddio'r adnoddau, rydym wedi dewis rhai sylwadau allweddol a phwyntiau trafod perthnasol ar gyfer pob un o'r naw adran. Efallai y byddai cychwyn trafodaeth gyda'r dosbarth yn ymwneud â'r pwyntiau cychwyn rydym wedi'u hawgrymu yn rhoi cyflwyniad defnyddiol i'r gweithgaredd/ gweithgareddau sydd wedi'u hawgrymu a fydd yn dilyn ymhob un o'r naw adran, a gall athrawon eu teilwra i gyfateb ag anghenion eu myfyrwyr. Mae brasamcan o'r amseriadau wedi'u nodi ar gyfer pob gweithgaredd ond, wrth gwrs, bydd hyd bob un yn amrywio yn dibynnu ar allu'r disgyblion.

Ffordd ddefnyddiol o gau pob adran yw'r drafodaeth grŵp sy'n dilyn: cymerwch amser i ofyn i'r disgyblion beth maent wedi'i ddysgu o'r adran hon ar y fideo a'r gweithgareddau.

Ar ddiwedd bob adran o'r pecyn mae cyfres o Ganlyniadau Dysgu sy'n dangos yr hyn y dylai'r bobl ifanc ei wybod, ei ddeall neu allu eu gwneud ar ôl cwblhau'r gweithgareddau a ddarparwyd.

Gallwch weld Cysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar dudalen 1 y pecyn addysg 'Islamoffobia'.

Nid yw'r pecyn hwn yn adnodd trwyadl o bell ffordd, ac mae unrhyw wybodaeth na ellid ei chynnwys ar gael ar www.theredcard.org, lle byddwch yn gweld adran addysg a ddiweddarwn yn barhaol. Mae hon yn cynnwys manylion ein cystadleuaeth flynyddol i ysgolion.

NOD Y PECYN

- Gwneud pobl ifanc yn fwy cyfarwydd ag amrywiaeth o ffeithiau a sgiliau a fydd yn eu galluogi i herio stereoteipiau negyddol a chamsyniadau am geiswyr lloches a ffoaduriaid
- Sicrhau fod pobl ifanc yn dod i ddeall materion amrywiaeth a hunaniaeth yn well
- Annog pobl ifanc i gyfrannu fel dinasyddion cyfrifol a gweithgar a datblygu mwy o empathi gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- Darparu adnodd addysgu hawdd ei ddefnyddio i athrawon fel y gallent addysgu'r bobl ifanc ar gyfer yr uchod

CYN GWYLIO'R FFILM

Am fod trafod pynciau lloches gyda myfyrwyr yn gallu bod yn anodd, byddai'n syniad da gwneud rhywfaint o waith paratoi cyn defnyddio ein hadnoddau. Dylai hyn gynnwys gosod rheolau sylfaenol cyn y sesiwn/sesiynau. Ni ddylai unrhyw un deimlo bod rhywun arall yn pigo arnynt, hyd yn oed os oes ganddynt farn wahanol iawn i'w cyd-ddisgyblion. Bydd athrawon yn gorfod gweithio'n galed i sicrhau bod yr holl drafodaethau'n digwydd ar lefel wrthrychol.

Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau nad yw unrhyw wers yn dod yn llwyfan ar gyfer rhagfarn yn erbyn ceiswyr lloches a ffoaduriaid neu unrhyw sylwadau hiliol eraill, ac ni ddylai'r ffaith fod angen cadw cydbwysedd fod yn rhywbeth sy'n atal safiad clir yn erbyn hiliaeth ac anoddefiad. Yn lle hynny, mae angen i fyfyrwyr ddeall bod rhai ffyrdd o ymddwyn, megis hiliaeth a bwlio, na ddylai neb eu goddef.

GWEITHGAREDDAU CYCHWYNNOL

Un ffordd ddefnyddiol o gyflwyno'r pwnc i'r myfyrwyr yw gofyn iddynt ystyried materion sy'n gysylltiedig â'u hunaniaeth eu hunain. Yna gofynnwch iddynt gwestiynu'r labeli maent yn eu defnyddio i ddiffinio pobl eraill sydd ond wedi'u seilio ar eu statws cyfreithiol h.y. 'ceisiwr lloches' neu 'ffoadur'. Byddem yn argymell eich bod yn cychwyn gyda'r gweithgaredd 'Archwilio Hunaniaethau' yn Adran 3 y pecyn 'Islamoffobia' cyn dysgu'r diffiniadau dilynol i'r dosbarth.

CEISIWR LLOCHES
Rhywun sy'n ffoi rhag erledigaeth yn ei wlad/ei gwlad ei hun, ac sydd wedi gwneud cais am amddiffyniad gyda'r Swyddfa Gartref ar sail Confensiwn y Ffoadur neu Erthygl 3 Siarter Hawliau Dynol Ewrop (ECHR) ac sy'n aros am benderfyniad ar y cais hwnnw.

CEISIWR LLOCHES 'ANGHYFREITHLON'
Mae'r wasg wedi bod yn camddefnyddio'r term yma, ac nid oes diffiniad cyfreithiol ohono; mae Erthygl 14 y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (1948) yn datgan bod gan 'bawb yr hawl i geisio ac i fwynhau lloches rhag erledigaeth mewn gwledydd eraill'. Mewn geiriau eraill, does dim ffasiwn beth â cheisiwr lloches 'anghyfreithlon'.

FFOADUR
Dan gyfraith ryngwladol mae ffoadur yn berson sydd y tu allan i wlad ei g/chenedligrwydd neu lle mae ei g/chartref arferol, sydd ag ofn erledigaeth, a chanddo/ganddi reswm da am hynny, oherwydd ei hil, crefydd, cenedligrwydd, aelodaeth mewn grŵp cymdeithasol arbennig neu farn wleidyddol; ac sy'n amharod neu'n methu gwneud defnydd o amddiffyniad y wlad honno, neu ddychwelyd yno, rhag ofn iddo/iddi ddioddef erledigaeth. Yn y DU, cydnabyddir fod person yn ffoadur dim ond pan fydd y Swyddfa Gartref wedi derbyn eu cais am loches. Rhoddir statws ffoadur i geisydd lloches os yw'n ateb y meini prawf sydd wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Statws Ffoaduriaid 1951.

CEISIWR LLOCHES AFLWYDDIANNUS
Rhywun y mae ei gais/ei chais am loches wedi cael ei wrthod ac sy'n aros i fynd yn ôl i'w wlad/i'w gwlad. Mae rhai ceiswyr lloches sy'n methu dychwelyd i'w gwledydd yn syth am resymau megis salwch, beichiogrwydd neu am nad oes taith ddiogel yno. Mewn achosion fel yma, efallai y bydd hawl i'r ceisiwr lloches aflwyddiannus gael rhywfaint o gefnogaeth.

Yn aml iawn mae pobl yn cymysgu materion sy'n ymwneud â Lloches gyda Mudo sy'n rhywbeth ehangach ac sy'n golygu symudiad pobl ar draws y byd am bob mathau o wahanol resymau.

GWEITHIWR MUDOL / MUDWR ECONOMAIDD
Person sy'n mudo o un wlad i wlad arall i gael gwaith.

MEWNFUDWR
Mudwr sydd wedi dewis setlo yn y wlad mae wedi croesi i mewn iddi, ac felly'n dod i fyw yno'n barhaol.

MEWNFUDWR ANGHYFREITHLON
Mae mewnfudwr anghyfreithlon yn berson sydd naill ai'n mynd i mewn i wlad yn anghyfreithlon, neu sy'n dod i mewn yn gyfreithlon ond yna'n torri termau eu fisa, trwydded byw barhaol neu drwydded ffoadur.

Gall y bobl yma hefyd ddioddef hiliaeth; yn arbennig mewn amseroedd o adfyd economaidd: gallwch weld rhagor o gyngor ac adnoddau yn ymwneud â brwydro yn erbyn hiliaeth tuag at weithwyr mudol ar www.theredcard.org

GWEITHGAREDD 1: STEREOTEIPIAU (15 MUNUD)

Rhowch focs ynghanol yr ystafell. Rhowch ddarnau o bapur i bawb sy'n cymryd rhan. Ar y papurau mae'r datganiadau dilynol iddynt eu cwblhau:

Mae pob ceisiwr lloches yn...
Mae pob ffoadur yn...
Mae pob mewnfudwr anghyfreithlon yn...
Mae ceiswyr lloches fel arfer yn...
Mae ffoaduriaid fel arfer yn...
Mae ceiswyr lloches yn dod i'r wlad yma oherwydd...
Mae pobl sy'n dod i'r wlad yma'n...

Anogwch y myfyrwyr i gwblhau'r dasg ar eu pennau eu hunain a pheidio trafod eu hatebion. Rhowch y brawddegau cyflawn yn ôl yn y bocs yna gwahoddwch y myfyrwyr i ddewis un a'i ddarllen yn uchel. Gallech ddangos y datganiadau ar y wal neu ar ford a chyfeirio atynt neu eu herio wrth wneud gweithgareddau pellach.

Materion i'w hystyried:

- O ble ddaeth syniadau pobl?
- A oedd y pethau roedden nhw'n eu dweud yn wir?
- Ar ba dystiolaeth maen nhw wedi seilio eu tybiaethau?
- Beth allai fod yn effaith negyddol i stereoteipio?
- All y myfyrwyr feddwl am unrhyw stereoteipiau eraill? – Oes unrhyw rai ohonynt yn effeithio arnyn nhw?
- Sut allai stereoteipiau'r bobl ifanc effeithio ar y ffordd maent yn ystyried ac yn trin ceiswyr lloches a ffoaduriaid?

1. CYFLWYNIAD HYD YR ADRAN 1'54

Mae Gary Lineker yn cyflwyno'r syniad o geisio lloches ac yn diffinio rhai termau pwysig tra bo ceiswyr lloches ifanc yn dechrau adrodd eu straeon.

SYLWADAU ALLWEDDOL:

- **VERONA:** Roedd gen i dŷ mawr; cymerodd fy nhad hydoedd i'w adeiladu. Roedd gen i bethau hyfryd.
- **AHMED:** Saethon nhw fy nhad, ac mae wedi marw nawr. Rwy'n casáu Somalia.
- **VERONA:** Lladdon nhw fy Nhaid – fe welais i nhw'n gwneud pethau creulon iddo fel tynnu ei glust i ffwrdd, a thynnu ei lygaid.
- **GARY LINEKER:** Efallai nad yw eu Saesneg yn dda iawn, a'u bod nhw'n ymddwyn yn oeraidd. Y gwir yw bod eu bywydau wedi'u dinistrio [ond] tu mewn maen nhw'n union fel chi a fi.
- **GARY LINEKER:** Tra byddwch chi'n gwylio'r rhaglen yma, ceisiwch gamu mewn i'w hesgidiau nhw a gofyn i chi'ch hun, "sut fyddwn i'n teimlo petai hynny'n digwydd i fi"?

Pwyntiau Trafod:

- A oedd unrhyw un wedi synnu bod bywydau ceiswyr lloches cyn dod yma yn fywydau cyfoethog?
- Sut fyddech chi'n teimlo petaech chi'n gorfod mynd o fyw bywyd cyfoethog mewn un wlad i fyw bywyd tlawd lle na chewch weithio mewn gwlad arall?
- Ydy hi'n bosibl i chi ddychmygu sut mae'n teimlo i weld rhywun yn lladd neu'n arteithio aelodau o'ch teulu o'ch blaen chi?
- Ydy hon yn wlad y gallech chi fyw ynddi?
- Ydy hon yn wlad y dylai unrhyw un orfod byw ynddi?

GWEITHGAREDD 1: DATBLYGU EMPATHI – STORI VERONA (30 MUNUD)

Yn y profion-sgrin ar y DVD mae cyfweliadau hir gyda rhai o'r bobl ifanc sydd i'w gweld yn y ffilm. Gallwch ddefnyddio'r rhain i roi cyfle i'r myfyrwyr ddatblygu empathi gyda sefyllfa ceiswyr lloches ifanc. Dangoswch 'Stori Verona' i'r myfyrwyr a'u rhannu'n grwpiau bychain i gwblhau'r gweithgaredd, cyn rhoi'r cyfle iddynt fwydo eu hatebion yn ôl i'r dosbarth.

Rhowch gopi o Daflen Waith Stori Verona isod i'r bobl ifanc.

TAFLEN WAITH STORI VERONA

O le mae Verona'n dod?

Pam oedd yn rhaid iddi adael ei gwlad?

Pa mor hir dreuliodd hi yn y mynyddoedd?

Beth wnaeth hi pan oedd hi'n sychedig yn ystod ei thaith?

Beth mae Verona'n ei golli am ei chartref?

Dychmygwch fod Verona yn eich dosbarth chi yn yr ysgol. Allwch chi feddwl am 3 peth y gallech eu gwneud naill ai yn yr ysgol neu'r tu allan i'r ysgol i'w helpu i setlo?

1.

2.

3.

GWEITHGAREDD 2:
RHAID FFOI (25 MUNUD)

Roedd yn rhaid i Verona dreulio wythnos yn y mynyddoedd mewn tywydd rhewllyd heb got. Yn aml iawn mae ceiswyr lloches yn gorfod gadael eu cartrefi'n gyflym iawn. Gofynnwch i'r bobl ifanc ddychmygu mai dim ond 5 munud sydd ganddynt i roi pethau mewn bag cyn iddynt adael eu cartrefi am byth. Pa bump peth fydden nhw'n eu cymryd?

Gofynnwch iddynt feddwl am y pethau yma:

- Fydden nhw'n gallu ei gario?
- Fydden nhw'n cael amser i'w bacio?
- A fyddai'n ddigon bach i ffitio yn y siwtces?
- Pa mor bwysig yw ei gymryd?

Materion i'w hystyried:

- Efallai bod bwyd a dŵr yn hanfodol, ond maen nhw'n drwm i'w cario
- Efallai eu bod yn caru eu hanifeiliaid anwes, ond dim ond baich fydden nhw wrth geisio ffoi
- Fyddai hi ddim yn ymarferol bosibl cymryd y mwyafrif o'r nwyddau trydanol sydd gennym
- Byddai pasbort yn eu helpu i groesi ffiniau ond gallai achosi iddynt gael eu hadnabod a'u restio cyn iddynt ddianc
- Bydd lluniau'r teulu a llyfrau cyfeiriadau'n bwysig yn emosiynol oherwydd efallai na ddônt byth yn ôl adref, ond byddai eu cario gyda nhw'n beryglus, pam?
- Gallent ddefnyddio arian, tlysau ac unrhyw beth gwerthfawr i brynu eu hunain allan o drafferth

Tynnwch lun siwtces ar y bwrdd gwyn. Pan fydd y dosbarth wedi cytuno ar y 5 eitem fwyaf pwysig i'w cymryd, rhowch yr eitemau yma yn y siwtces.

Yn olaf, gofynnwch i'r grŵp a oes unrhyw un wedi dod â thystiolaeth eu bod nhw wedi cael eu gorfodi i adael. Heb dystiolaeth, ni fyddent yn cael aros a setlo yn y mwyafrif o wledydd.

Gweithgaredd Ymhelaethu

Un o'r ffyrdd mwyaf pwerus o gyfleu i'r dosbarth sut beth yw ceisio lloches yn y wlad hon fyddai gwahodd ceisiwr lloches neu ffoadur lleol i ddod i ddweud eu stori eu hunain wrth y dosbarth.

Canlyniadau Dysgu

Dylai'r bobl ifanc fod wedi:

- Dod i ddeall y rhesymau y mae pobl yn ceisio lloches ac archwilio straeon personol
- Ymarfer sgiliau empathi
- Dysgu sut i ddiffinio'r term ceisiwr lloches
- Ystyried y trawma y mae llawer o geiswyr lloches yn mynd trwyddo a'r effaith a gaiff ar eu bywydau

TRAFODAETH GRŴP

2. CELWYDD Y CYFRYNGAU HYD YR ADRAN 2'21

Mae'r adran hon yn archwilio'r portread o geiswyr lloched yn y cyfryngau a rôl y wasg mewn cyfleu stereoteipiau ac agweddau negyddol tuag at geiswyr lloches a ffoaduriaid byth a hefyd.

SYLWADAU ALLWEDDOL:

- **ASHLEY COLE:** Mae llawer o bobl yn darllen y papurau ac yn siarad am y papurau, felly beth bynnag sydd yn y papurau, mae llawer o bobl yn eu credu.
- **DAVID JAMES:** Am fy mod yn bêl-droediwr, yn darllen straeon amdanaf fy hun ac yn gwybod eu bod nhw'n anghywir, rwy'n tueddu ystyried llawer o'r straeon yn y cyfryngau'n gelwyddau. Mae'n anodd iawn gweld beth sy'n wir.
- **SHAKA HISLOP:** Rydym yn deall o safbwynt pêl-droed yn unig nad ydyn nhw byth yn sôn am y pethau da am bêl-droedwyr. Maen nhw bob amser yn ceisio tynnu sylw at y pethau drwg a gwneud stori fawr ohonynt – dyna'n union beth sy'n digwydd gyda cheiswyr lloches.

Pwyntiau Trafod:

- Pam fod papurau newydd yn ceisio gwneud stori fawr o bethau'n aml iawn?
  - Tynnwch sylw at y ffaith fod papurau newydd yn fusnesau gwneud arian
- Gofynnwch i bobl ifanc am eu barn ynglŷn â'r ffordd mae'r cyfryngau'n cynrychioli pobl o'u hoedran nhw – a yw'n gwneud hyn yn deg neu'n annheg?
- Gofynnwch i bobl ifanc feddwl am y ffordd y mae'r wasg wedi trin eu hoff sêr yn ddiweddar: a gafwyd llawer o straeon positif?
- Allwn ni gredu popeth a welwn ac a glywn yn y cyfryngau?

GWEITHGAREDD 1: MYTHAU'R CYFRYNGAU (45 MUNUD)

Trowch y pecyn drosodd os gwelwch yn dda ac edrychwch ar Islamoffobia ar dudalen 6. Gallwch addasu hwn i'w ddefnyddio i chwalu'r mythau yn y cyfryngau am geiswyr lloches a ffoaduriaid. Cyflwynwch **ADRAN UN: Pobl yn eu Harddegau** fel y mae, yna trowch yn ôl i'r dudalen hon er mwyn cyflwyno adran dau.

ADRAN DAU: Ceiswyr lloches

Gofynnwch i'ch myfyrwyr:

- Pan glywch neu gwelwch straeon am geiswyr lloches yn y newyddion, pa fathau o straeon ydyn nhw?
- Yr athro/athrawes i gael sesiwn o daflu syniadau am stereoteipiau 'ceiswyr lloches' gyda'r myfyrwyr. Y myfyrwyr i gael eu hannog i ystyried 'beth mae'r papurau'n ei ddweud'.

Ewch drwy'r daflen weithgaredd '**Penawdau Newyddion 2: Ceiswyr lloches**' gyda'r myfyrwyr. O ddarllen y penawdau, a all y myfyrwyr ganfod pa argraff mae'r penawdau hyn yn eu rhoi o geiswyr lloches?

Pa benawdau:

- Sy'n cyffredinoli ormod gan ddweud pethau amdanynt sy'n wir am rai, ond sydd ddim yn wir am bob un neu am y rhan fwyaf o unigolion o fewn y grŵp hwnnw?
- Allai wneud i rywun ofni neu deimlo'n ansicr am y grŵp hwnnw?
- Allai wneud i rywun ddewis peidio dod i adnabod aelod o'r grŵp hwnnw?
- Allai wneud i rywun feddwl nad oes gan grŵp arbennig ddim byd i'w gynnig i gymdeithas?

Gofynnwch i'ch myfyrwyr ganfod y geiriau sy'n cryfhau'r ystyr neu sy'n 'llwythog' er mwyn ychwanegu at ragfarn y penawdau.

Gallai myfyrwyr archwilio'r ystod o agweddau y byddai'r penawdau papur newydd yma'n debyg o'u meithrin a rhestru pa fythau sy'n cael eu creu yn y cyfryngau am geiswyr lloches.

CHWALWR CHWEDLAU: Mae Asia'n cymryd 48.3% o ffoaduriaid y byd, ac yn dilyn hynny mae Affrica gyda 27.5%. Mae Ewrop yn cymryd 18.3% a Phrydain lai na 2%.

TAFLEN WEITHGAREDD 'PENAWDAU NEWYDDION 2: CEISWYR LLOCHES'

POB BOMIWR YN GEISIWR LLOCHES SY'N DOD YMA I FYW ODDI ARNOM NI
Daily Express 25/07/05

PRYD O ELYRCH: Ceiswyr lloches yn dwyn adar y Frenhines ar gyfer y barbeciw The Sun 04/07/03

PRYDAIN YW PRIFDDINAS LLOCHES Y BYD Daily Express 23/03/05

COLLI'R FRWYDR YN ERBYN TROSEDDAU LLOCHES Daily Mail 26/11/02

DALIWCH Y DON DROSEDDAU'N ÔL The News of the World 30/01/05

TAFLWCH Y SBWRIEL YMA ALLAN Daily Star 02/03/03

A BYDDENT YN ATAL Y CEISWYR LLOCHES FFUG RHAG DERBYN GOFAL Y GWASANAETH IECHYD, GAN ARBED £1 BILIWN O ARIAN Y TRETHDALWYR
The Sun 31/07/03

FFOADURIAID ANGHYFREITHLON WEDI'U TARGEDU AR Y TIWB
The Observer 11/07/04

Efallai y bydd y ffeithiau dilynol o gymorth:

FFYNHONNELL: 'Article 19: What's the Story' (2003)

Mae'r ffordd mae'r cyfryngau'n adrodd am fater yn ymwneud â lloches yn defnyddio iaith anghywir a chythruddol i ddisgrifio'r bobl hynny sy'n dod i mewn i'r wlad i geisio lloches. Gwelwyd bod 51 o labeli gwahanol yn cyfeirio at unigolion sy'n ceisio lloches ym Mhrydain a bod y rhain yn cynnwys termau diystyr a bychanol megis 'ffoadur anghyfreithlon' a 'thwyllwr lloches'.

Mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn teimlo'n unig iawn, yn teimlo cywilydd ac yn teimlo eu bod dan fygythiad am fod cymaint o bethau negyddol i'w cael am geiswyr lloches yn y cyfryngau. Roedd llawer o'r bobl a gyfwelwyd yn dweud eu bod wedi cael profiad uniongyrchol o ragfarn, camdriniaeth neu drais gan gymdogion a darparwyr gwasanaethau ac roeddent yn dweud bod hyn yn deillio o'r ffordd mae'r cyfryngau'n hysbysu barn y cyhoedd.

Mae erthyglau am loches yn y newyddion yn dibynnu'n drwm ar wleidyddwyr, ffigurau swyddogol a'r heddlu i roi gwybodaeth ac esboniadau. Dydyn nhw ddim yn dyfynnu'r ffoaduriaid a cheiswyr lloches unigol heblaw bod yr adroddiad wedi'i seilio arnyn nhw a dydy'r bobl yma bron byth yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r ddadl am bolisi.

Mae'r lluniau sy'n cael eu defnyddio gydag adroddiadau am loches mewn print neu wedi'u darlledu yn amlach na heb yn lluniau stereoteip o'r 'dyn ifanc bygythiol'. Yn anaml iawn y gwelwn ni luniau merched a phlant, a'r hyn a gawn drosodd a throsodd yw lluniau o grwpiau o ddynion yn ceisio dod i mewn i Brydain yn anghyfreithlon.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol cychwyn trafodaeth gyda'r dosbarth am fathau newydd o gyfryngau a'u hannog nhw i feddwl pa mor wir yw'r erthyglau a'r straeon y maent yn eu darllen ar y Rhyngrwyd. Gall unrhyw un – sydd ag unrhyw agenda – roi gwybodaeth ar y Rhyngrwyd heb wneud unrhyw wiriadau ac heb gydbwyso ffeithiau i weld pa mor wir/ffals/rhagfarnllyd/teg ydyn nhw.

Mae nifer o'r penawdau am geiswyr lloches yn gamarweiniol, yn anghywir ac yn gelwyddog. Er enghraifft:

PRYD O ELYRCH: Ceiswyr lloches yn dwyn adar y Frenhines ar gyfer y barbeciw – The Sun, Dydd Gwener 4 Gorffennaf 2003

Mae'r erthygl yn dweud bod *"Yr heddlu wedi dal criw o bobl o Ddwyrain Ewrop ar fin coginio pâr o elyrch brenhinol. Roedd y ceiswyr lloches yn coginio hwyaden ar farbeciw mewn parc yn Beckton, Dwyrain Llundain. Ond cafwyd hyd i ddau alarch marw hefyd wedi'u cuddio mewn bagiau ac yn barod i gael eu rhostio. Mae'r canfyddiad y penwythnos diwethaf wedi cadarnhau'r ofnau bod mewnfudwyr yn bwyta adar y Frenhines yn rheolaidd."*

Gwnaeth newyddiadurwr o'r enw Nic Medic, sy'n dod yn wreiddiol o Serbia ei hun, archwiliad i'r stori yma a chanfu na chafodd neb eu restio, eu cael yn euog o unrhyw beth o'r fath, na hyd yn oed eu rhybuddio. Roedd y stori wedi'i seilio ar gyhuddiadau di-sail a gafwyd gan aelodau di-enw o'r cyhoedd oedd yn honni eu bod yn credu bod pobl o Ddwyrain Ewrop yn lladd ac yn bwyta elyrch. Doedd gan yr heddlu ddim tystiolaeth i ddangos bod ceiswyr lloches neu bobl o Ddwyrain Ewrop yn gyfrifol am y gostyngiadau yr adroddwyd amdanynt yn y niferoedd elyrch ac nid yw'n bosibl penderfynu a yw'r troseddau a ddisgrifiwyd wedi digwydd mewn gwirionedd.

Ar ôl ei archwiliad, cyhoeddodd The Sun eglurhad... ar dudalen 41!

Gofynnwch i'r bobl ifanc ystyried pam fo papurau newydd yn barod i greu, gorddweud ac argraffu straeon celwyddog, negyddol am geiswyr lloches a ffoaduriaid.

Ar ôl iddynt restru'r mythau, efallai y byddai hwn fod yn gyfle i'w harchwilio a defnyddio defnyddiau eraill yn y pecyn dysgu yma i chwalu stereoteipiau negyddol a darparu gwybodaeth fanwl gywir.

Edrychwch eto ar y rhestr o awgrymiadau positif y mae'r myfyrwyr wedi'u cynhyrchu yn adran 1 y gweithgaredd yma ar gyfer chwalu portreadau negyddol yn y cyfryngau. Allai myfyrwyr wneud unrhyw beth i chwalu'r portread negyddol yma a'i effeithiau?

Chwalu Mythau'r Cyfryngau

1. Dysgwch eich ffeithiau chwalu mythau
2. Byddwch yn barod i herio'r mythau a glywch yn y cyfryngau
3. Cofiwch allwch chi ddim cyffredinoli ormod am grwpiau o bobl: mae pobl yn unigolion
4. Heriwch y cyfryngau – ysgrifennwch at eich papur newydd
5. Newidiwch eich rhaglen neu bapur newyddion!

Gweithgaredd Ymhelaethu

Gallai myfyrwyr ysgrifennu erthygl bapur newydd bositif am geiswyr lloches a ffoaduriaid.

Gallech ddefnyddio'r wybodaeth ddilynol fel man cychwyn:

Y manteision sy'n dod i'r DU gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid:

- Manteision i'r economi:
  1. Yn genedlaethol, mae mewnfudwyr yn cyfrannu 10% yn fwy i'r economi mewn trethi nag y maent yn ei ddefnyddio mewn budd-daliadau a gwasanaethau
  2. Mae siopau a gwasanaethau'n elwa o'r gwario ychwanegol
- Mae pobl yn mynd i fyw mewn eiddo oedd yn wag beth bynnag gan olygu bod y gerddi'n daclusach, bod llai o ffenestri wedi'u bordio a bod llai o fandaliaeth
- Mae ceiswyr lloches yn dod â sgiliau ychwanegol i ardal. Mae gan lawer ohonynt gymwysterau uchel; er enghraifft, meddygon, peirianyddion a gwyddonwyr. Mae 90% o geiswyr lloches yn siarad 2 iaith a 65% yn siarad 3 neu fwy
- Gall ceiswyr lloches gyfoethogi bywydau pobl leol drwy rannu eu diwylliant a'u profiadau a dod â safbwynt byd-eang i gymuned

Canlyniadau Dysgu

Dylai pobl ifanc allu:

- Deall dylanwad y cyfryngau ar y syniad sydd gan gymdeithas o geiswyr lloches / bobl ifanc
- Deall sut mae rhagfarn y cyfryngau'n gallu creu disgrifiadau negyddol o geiswyr lloches / bobl ifanc
- Dod yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng syniadau pobl am geiswyr lloches/pobl ifanc a'r hyn sy'n wir mewn gwirionedd
- Enwi rhai o'r manteision y gall ceiswyr lloches eu rhoi i'w cymunedau
- Dod yn ymwybodol o berygl cael syniad anghywir am bobl sy'n ymddangos yn geiswyr lloches / ffoaduriaid

TRAFODAETH GRŴP

CHWALWR CHWEDLAU: Yn 2005, daeth oddeutu 102 miliwn o bobl i mewn i'r DU. Roedd ceiswyr lloches yn cynrychioli 0.025% yn unig o'r cyfanswm yma. (Ffynhonnell: Y Swyddfa Gartref, Rheoli mewnfudiad: ystadegau 2005, 22 Awst 2006)

3. RHYFEL Y LLWYTHI HYD YR ADRAN 2'54

Yn yr adran hon mae pobl ifanc yn disgrifio sefyllfaoedd gwleidyddol a chymdeithasol yn y gwledydd yr oedd yn rhaid iddynt ddianc ohonynt a phennu cyfraith a threfn fel prif fanteision byw yn y DU.

SYLWADAU ALLWEDDOL:

- **SUHURA:** Yn y nos roeddem yn cysgu a daeth rhai o'r llwyth mwyaf atom a lladd fy nhad, a saethu fy mam – roeddem yn cuddio oddi wrthynt, yn y gwelyau, o dan y gwelyau, ymhob man.
- **LOMANA LUA LUA:** Dydy o ddim yn debyg i'r fan yma o ran diogelwch: gallwch dalu arian i'r heddlu, gallwch wneud rhywbeth drwg – lladd rhywun – ac rydych yn talu arian i'r heddlu ac maen nhw'n gadael i chi fynd.
- **SUHURA:** Yn Lloegr mae cyfraith a threfn; mae heddlu yma, ac mae hyn yn dda i bawb. Os oes rhywun yn ceisio eich brifo, gallwch ddweud wrth yr heddlu a bydden nhw'n eu hatal ac, yn fy marn i, mae hynny'n dda IAWN.

Pwyntiau Trafod:

- Beth oedd y pethau roedd y ceiswyr lloches ifanc wedi'u plesio fwyaf o'u gweld yn y wlad hon?
- Pam ddewisodd y ceiswyr lloches y wlad hon?
- Myth cyffredin yw bod ceiswyr lloches yn dod i'r DU ar gyfer y 'system budd-daliadau' – ai dyma oedd blaenoriaeth Suhura?
- Ynghyd â heddlu teg, beth arall ydyn ni'n ei gymryd yn ganiataol yn y wlad hon efallai?
- Gofynnwch i'r bobl ifanc ystyried canlyniadau byw mewn cymdeithas ddigyfraith; pa effaith fyddai hyn yn ei chael arnyn nhw?

GWEITHGAREDD 1: GWLEDYDD YN GWRTHDARO (1 AWR)

Roedd llawer o'r bobl ifanc yn y ffilm wedi dianc o Somalia – rhannwch gyda'r dosbarth yr amlinelliad byr o'r sefyllfa yn y wlad hon a welwch yn y bocs isod. Yn hanner cyntaf 2008, y pedair gwlad gyda'r nifer uchaf o geiswyr lloches yn cyrraedd y DU oedd Afghanistan, Irac, Iran a Zimbabwe. Gofynnwch i'r bobl ifanc ymchwilio'r sefyllfaoedd gwleidyddol/ dyngarol yn y gwledydd yma ac ystyried a ydynt yn fannau diogel i fyw ynddynt.

Canlyniadau Dysgu

Dylai'r bobl ifanc fod wedi:

- Meddwl am hawliau dynol sylfaenol a deall nad oes gan bawb yr un cyfle i fwynhau'r rhain
- Dysgu am rai o'r gwahanol sefyllfaoedd gwleidyddol a chymdeithasol sy'n achosi i bobl adael eu cartrefi
- Meddwl am yr aberth y mae'n rhaid i geiswyr lloches eu gwneud wrth chwilio am rywle diogel i fyw

TRAFODAETH GRŴP

MAE **SOMALIA** ar benrhyn Affrica. Mae'n ffinio gydag Ethiopia yn y gorllewin, Djibouti i'r gogledd orllewin, a Kenya i'r de orllewin; mae'n boeth drwy'r flwyddyn gron a cheir gwyntoedd monsŵn a glaw afreolaidd sy'n golygu bod cyfnodau o sychdwr mawr yn aml iawn.

Cychwynnodd Rhyfel Cartref yn Somalia yn 1988 pan orchfygwyd yr arlywydd gan lwythi gwrthwynebus, ond nid oeddent yn gallu cytuno ar rywun i gymryd ei le ac aeth y wlad yn ddigyfraith a chafwyd rhyfeloedd rhwng y gwahanol lwythi. Mae gwahanol rannau o'r wlad wedi datgan eu hannibyniaeth ac mae'r brifddinas Mogadishu wedi'i rannu'n diriogaethau bychain dan reolaeth gwahanol Arglwyddi Rhyfel sy'n cynrychioli'r gwahanol lwythi. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn amcangyfrif bod y blynyddoedd o frwydro rhwng y gwahanol Arglwyddi Rhyfel, wedi'i gyfuno â newyn a chlefydau, wedi arwain at farwolaeth hyd at filiwn o bobl a bod y brwydro wedi creu miliwn o ffoaduriaid hefyd.

4. BYWYD MEWN BAG HYD YR ADRAN 1'21

Mae Said yn siarad am orfod gadael ei gartref plant am ei fod yn troi'n 18 oed.

SYLWADAU ALLWEDDOL:

- **SAID:** Rydw i'n cynilo arian hyd yn oed ar y £40 yr wythnos a gâf – roeddwn i'n prynu pethau i wneud i mi deimlo'n fwy cartrefol.
- **SAID:** Dydw i ddim hyd yn oed yn gwybod sut i bacio, wnes i ddim dod ag unrhyw beth yma.
- **SAID:** Mae hwn fel teulu i mi, dw i wedi nabod rhai o'r plant yma am bron i ddwy flynedd.

Pwyntiau Trafod:

- Yn eich barn chi, faint fyddai'n swm derbyniol o arian i fyw arno am wythnos?
- Pwysleisiwch i'r dosbarth nad yw ceiswyr lloches, faint bynnag o sgiliau sydd ganddynt, yn cael gweithio'n gyfreithlon tra bo'r llywodraeth yn prosesu eu ceisiadau, a gall hyn gymryd amser hir iawn.
- Pa aberthau fyddai'r bobl ifanc yn gorfod eu gwneud er mwyn byw ar £40 yr wythnos?
- Pa mor bwysig yw hi i gael arian a bod yn gyfoethog?

GWEITHGAREDD 1: GWLAD O LAETH A MÊL? (40 MUNUD)

MYTH: "...ton o bobl sy'n ystyried Prydain yn wlad o laeth a mêl"
The Sun, 22 Mai 2002

Yn aml iawn mae'r wasg yn darlunio ceiswyr lloches fel "pobl ddiog sy'n byw ar arian pobl eraill" sy'n dod i'r DU i fyw bywyd hawdd y mae'r trethdalwr yn talu amdano. Y gwirionedd yw bod cymwysterau gwych gan lawer o geiswyr lloches sy'n dod yma ac y byddent wrth eu bodd yn gweithio, ond dydyn nhw ddim yn cael gweithio tra bo'u ceisiadau'n cael ystyriaeth. Dylai'r gweithgaredd yma ddangos ei bod hi'n eithriadol anodd byw ar y lwfans a gaiff y ceiswyr lloches ac, yn sicr, nid yw'n eu galluogi i fyw bywyd moethus.

Ar hyn o bryd mae ceiswyr lloches unigol sydd rhwng 18 a 25 oed yn derbyn £33.39 yr wythnos i fyw arno. Mae hyn yn rhoi £4.77 iddynt bob dydd.

Gofynnwch i'r bobl ifanc ddefnyddio'r tabl rydym wedi'i ddarparu i gynhyrchu cyllideb sy'n dangos sut y byddent yn gwario gwerth wythnos o arian.

Unwaith y bydd y bobl ifanc wedi cynhyrchu eu cyllideb, gofynnwch iddynt a oedd y dasg yn un anodd. Pa bethau oedd yn rhaid iddynt wneud hebddynt? Fydden nhw'n ei chael hi'n anodd byw ar yr arian yma? Pa bethau oedd yn rhaid i'r bobl ifanc eu gadael oddi ar y rhestr ac y byddent yn eu colli?

Nodwch mai prisiau'r brandiau rhataf sydd ar y rhestr. Efallai yr hoffai'r bobl ifanc feddwl am gost y brandiau arbennig y byddai'n well ganddynt eu defnyddio.

Canlyniadau Dysgu

Dylai'r bobl ifanc fod wedi:

- Defnyddio sgiliau penderfynu a dangos empathi
- Defnyddio rhifedd sylfaenol
- Dod i ddeall rhywfaint am y trafferthion ariannol y mae nifer o geiswyr lloches yn eu hwynebu

TRAFODAETH GRŴP

Pryd Mac Mawr £3.29	Llysiau Ffres (digon am 1 diwrnod) £1	Diaroglydd £1.50	Papur ysgrifennu ac Amlen £1.50
Galwad ffôn adref am 5 munud £1.50	Bara (1 dorth) 50c	Past dannedd 80c	Cannydd 80c
Tocyn bws i'r dref ac yn ôl £2.50	4 peint o laeth £1.20	Tocyn Sinema £5.50	Cadachau glanhau 50c
Papur toiled (digon am 1 wythnos) £1	Beiro 20c	Sebon 50c	2l potel o Coke £1.50
Bar Siocled 50c	Menyn £1.00	Papur newydd 50c	1l Sudd Oren 50c
CD £7.99	Ffa Pob (1 tun) 30c	Siwmper £5	Siwgr 80c
Crys T £1.50	Grawnfwyd (digon am 1 wythnos) £1.50	Stampiau £1	Bagiau Te £1.20
Ffrwythau Ffres (digon am ddiwrnod) £1	Rhyngrwyd am 1 awr £1	Dillad Isaf £2	Coffi £1.50
Cyw Iâr £3.50	Torri gwallt £12.50	Eitemau glanweithiol (merched) £1	Cynilo arian i brynu eitemau mwy (e.e. esgidiau, cot, eitemau i'r cartref) £?

5. ADEILADU DYFODOL HYD YR ADRAN 2'28

Yn yr adran hon mae ceiswyr lloches ifanc yn siarad am eu gobeithion a'u breuddwydion ar gyfer y dyfodol.

SYLWADAU ALLWEDDOL:

- **SUHURA:** Doeddwn i erioed wedi bod i'r ysgol cyn i mi ddod i Loegr oherwydd, yn Somalia, allwch chi ddim mynd i'r ysgol – bydd plant y llwyth mwyaf yn eich lladd.
- **SUHURA:** Hoffwn i fod yn feddyg oherwydd os gallaf fod yn feddyg ac yna fynd yn ôl i Somalia, gallwn weithio mewn ysbyty mawr. Gallwn wneud pobl yn well; a gallwn ddweud wrth fy mhobl bod yr hyn maen nhw'n ei wneud yn anghywir. Os byddaf wedi cael addysg, gallwn helpu fy mhobl fy hun.
- **LOMANA LUA LUA:** Dydyn nhw [ceiswyr lloches] ddim yn dod yma i wneud llanastr o bethau nac i fod yn ddrwg – maen nhw'n dod yma i gael help.
- **SAID:** Dw i eisiau gwneud y peth cywir, mae hynny'n bwysig iawn i mi.

Pwyntiau Trafod:

- Oes gan unrhyw aelodau o'r dosbarth nodau/ dyheadau tebyg i'r ceiswyr lloches ifanc?
- Ym marn y dosbarth, sut mae bywydau pobl yn y DVD wedi newid? Oedd ganddyn nhw freuddwydion am eu dyfodol? Allan nhw dal gyflawni eu nodau i gyd yn y DU? A fydd hi'n haws neu'n anoddach?
- Pa ffactorau allanol sy'n atal pobl rhag cyflawni eu nodau? Ydy'r ffactorau yma'n wahanol iawn yn achos y bobl ifanc yn y dosbarth a'r ceiswyr lloches yn y ffilm?

GWEITHGAREDD 1: GOSOD NOD (25 MUNUD)

Gofynnwch i'r myfyrwyr os ydyn nhw'n gallu cofio unrhyw rai o'r bobl ifanc yn y DVD yn siarad am freuddwydion a gobeithion ar gyfer eu dyfodol: beth oedden nhw eisiau ei gyflawni?

Esboniwch i'r myfyrwyr bod y gweithgaredd yma'n edrych ar y gobeithion a'r nodau sydd gan y dosbarth ar gyfer eu dyfodol eu hunain.

Gofynnwch 'Beth yw llwyddiant?' a chasglwch syniadau gan y disgyblion. Diffiniwch lwyddiant fel: 'Cyrraedd nod' ac esboniwch fod yn rhaid i ni gael targedau er mwyn cael llwyddiant. Mae gosod nodau'n cymell pobl i'w cyflawni nhw ac yn darparu targedau i weithio tuag atynt.

Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu'r holl bethau maen nhw eisiau eu cyflawni yn eu bywydau, eu hannog i anelu'n uchel, i gynnwys cymaint o fanylion ag sy'n bosibl, i feddwl am uchelgeisiau proffesiynol a phersonol ac i sicrhau bod eu targedau'n realistig ac yn bosibl eu cyflawni.

Mae fformat wedi'i awgrymu isod:

FY NODAU

Y pethau sy'n hwyl yr hoffwn eu gwneud:
Y mannau lle hoffwn fynd:
Y bobl yr hoffwn eu cyfarfod:
Y cymwysterau yr hoffwn eu hennill:
Yr yrfa a hoffwn:
Y pethau yr hoffwn eu cyflawni yn fy swydd:
Y pethau yr wyf am eu gwneud i helpu pobl a fy nghymuned a'r amgylchedd:

Dywedwch wrth y myfyrwyr bod nodau a gobeithion yn bersonol a bod llwyddiant yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl felly does dim rhaid iddynt rannu eu gwaith os nad ydynt eisiau gwneud hynny. Defnyddiwch y pwyntiau trafod uchod i annog trafodaeth yn y dosbarth, gan ofyn y cwestiynau dilynol i'r dosbarth efallai:

- Beth os bydd rhywun yn cymryd eich breuddwydion a'ch nodau i gyd oddi arnoch ac yn dweud na fyddwch byth yn gallu eu cyflawni nhw? Sut fyddai hyn yn gwneud i chi deimlo? Ydy hyn yn deg?
- Fyddech chi'n ei chael hi'n anodd ennill cymwysterau da os byddai'n rhaid i chi ddysgu a sefyll eich arholiadau i gyd mewn iaith newydd?
- Sut allem ni gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn yr ysgol hon?

Ewch i www.theredcard.org i gael Adnoddau Addysgol ychwanegol a rhai wedi'u diweddaru

Canlyniadau Dysgu

Dylai'r bobl ifanc fod wedi:

- Ystyried eu gobeithion a'u nodau eu hunain a rhai pobl o wahanol amgylchiadau
- Ystyried y diffyg rheolaeth sydd gan nifer o ffoaduriaid a cheiswyr lloches dros agweddau o'u bywydau
- Defnyddio sgiliau empathi a dealltwriaeth
- Ymarfer sut i gynllunio a threfnu

TRAFODAETH GRŴP

6. BYW AR Y BLANED MAWRTH HYD YR ADRAN 1'24

Mae'r adran hon yn edrych ar rai o'r teimladau o unigrwydd a cholled y mae nifer o geiswyr lloches yn eu hwynebu wrth integreiddio yn eu cymunedau newydd, ac yn edrych ar yr hyn mae'r bobl ifanc wedi gorfod eu gadael ar ôl.

SYLWADAU ALLWEDDOL:

- **SAID:** Dw i'n wynebu llawer o bethau dydw i ddim yn gallu siarad amdanynt gyda neb. Nid am nad ydw i eisiau siarad gyda phobl am bethau, ond am nad oes gennym ni neb i siarad â nhw.
- **SUHURA:** Pan fydda i'n cofio fy nhad a fy chwaer dw i'n teimlo'n drist oherwydd dydw i ddim yn gwybod os ydy hi'n fyw neu'n farw.
- **SAID:** Dychmygwch eich hun yn mynd i'r blaned Mawrth – mae creaduriaid eraill yno ond dydyn nhw ddim yn eich deall chi mewn gwirionedd. Dydyn nhw ddim yn gwybod am beth rydych chi'n siarad. Dydyn nhw ddim yn gwybod sut beth yw teimlo'n hollol unig. Dydyn nhw ddim yn gwybod sut beth yw rhyfel, dydyn nhw ddim yn gwybod sut beth yw cael ein curo a'ch cywilyddio.
- **SHAKA HISLOP:** Cofiwch fod y bobl yma'n dod o wledydd sydd wedi'u sbwylio gan ryfeloedd ac sydd wedi gweld neu brofi camdriniaeth gorfforol ofnadwy, nid yn unig iddyn nhw eu hunain, ond i'r bobl maent yn eu caru, i'w teuluoedd, eu plant, eu brodyr, eu chwiorydd.

Pwyntiau Trafod:

- Beth fyddai'r disgyblion yn ei wneud os byddai aelod o'u teulu'n mynd ar goll – at bwy fydden nhw'n mynd i geisio eu canfod? Mae'n debyg nad yw'r cymorth yma'n bodoli mewn gwledydd sydd mewn rhyfel.
- Ydyn nhw'n meddwl y bydden nhw'n gallu canolbwyntio yn y dosbarth os nad oedden nhw'n gwybod a oedd aelod o'u teulu'n fyw neu'n farw?
- Gyda phwy mae'r dosbarth yn siarad pan fydd ganddyn nhw broblemau neu anawsterau – a oes gwasanaethau arbenigol ar gael i helpu?
- Anogwch y disgyblion i ddychmygu bod aelodau o'u teulu wedi cael eu lladd a bod yn rhaid iddynt symud miloedd o filltiroedd i ffwrdd – gyda phwy fydden nhw'n siarad mewn gwlad lle doedden nhw ddim hyd yn oed yn siarad yr iaith?

GWEITHGAREDD 1:
YDYCH CHI'N SIARAD SAESNEG? (20 MUNUD)

Mae llawer o geiswyr lloches yn methu siarad Saesneg pan fydden nhw'n cyrraedd Prydain, gan greu anawsterau wrth geisio cyfathrebu gyda Swyddogion Mewnfudiad a'r Heddlu, ac wrth lenwi dogfennau cyfreithiol gofynnol. Mae'r trafferthion yma'n parhau pan fyddent yn ceisio setlo mewn cymunedau newydd: am nad ydyn nhw'n gallu cyfathrebu'n effeithiol, mae llawer o geiswyr lloches yn gallu teimlo'n unig iawn ac mae'r diffyg dealltwriaeth o ran iaith yn eu gwahardd rhag integreiddio'n llawn a defnyddio gwasanaethau a chefnogaeth hanfodol. Mae dysgu'r iaith yn flaenoriaeth i'r rhan fwyaf o geiswyr lloches, ond dydy dosbarthiadau dysgu Saesneg ddim ar gael yn hawdd bob amser.

Trafodwch y canlynol gyda'r dosbarth:

- A oes unrhyw un yma'n gallu siarad iaith arall?
- A oes gan y myfyrwyr unrhyw brofiad o fod mewn gwlad arall sydd ag iaith wahanol? Sut beth oedd hynny?
- Pa anawsterau fydden ni'n eu hwynebu os na fyddem yn gallu siarad â neb neu ddeall neb? Sut deimlad fyddai hynny? Allwn ni ddychmygu hyn?
- Ydy hi'n hawdd dysgu iaith arall? Fydden nhw'n aberthu eu hamser i fynd i wersi iaith?
- Pa fathau eraill o gyfathrebu sydd?

Rhannwch y myfyrwyr yn ddau dîm, esboniwch iddynt fod y gêm yma'n dangos pa mor anodd a rhwystredig yw hi os na allwch gyfleu eich neges i rywun arall. I baratoi ar gyfer y gêm, llungopïwch y datganiadau isod, plygwch nhw a rhowch nhw mewn bocs a gofyn i'r myfyrwyr bigo un yr un.

'Charades' yw'r gêm a dylai'r myfyrwyr fod yn gyfarwydd â hi; mae'r rheolau'n amrywio'n fawr felly cytunwch ar y rhain cyn cychwyn y gêm. I gynhesu'r grŵp ac i ddod i arfer, gallech ddechrau drwy gael y myfyrwyr i actio teitlau caneuon neu enwau ffilmiau poblogaidd cyn dechrau defnyddio'r datganiadau.

Mae pob chwaraewr yn actio eu brawddeg nhw i weddill eu tîm; maent yn sgorio pwynt am bob dyfaliad cywir ac yn cofnodi'r sgorau ar fwrdd neu siart droi. Rhowch amser penodol iddynt ac yna'r tîm sydd â'r sgôr uchaf pan ddaw'r amser i ben yw'r enillydd.

Isod mae esiamplau o frawddegau y gallwch ofyn i'r bobl ifanc eu cyfleu i'r lleill. Mae rhai yn anoddach nag eraill:

DYDW I DDIM YN SIARAD SAESNEG	**DW I'N DOD O ANGOLA**
DW I'N SÂL AC ANGEN MEDDYG	**DW I AR GOLL**
DYDY FY NGWLAD DDIM YN DDIOGEL	**LLE ALLWN I BRYNU SEBON?**
MAE FY MRAWD WEDI MARW	**MAE YNO RYFEL**
YMHLE MAE'R LLYFRGELL?	**RWYF AR FY MHEN FY HUN**
BETH YW DY ENW?	**DYDW I DDIM YN DEALL**
LLE MAE AROSFA'R BWS?	**OES GEN I DDIGON O ARIAN I'W BRYNU?**
RWY'N COLLI FY FFRINDIAU ADREF	**SUT YDW I'N DEFNYDDIO'R FFÔN?**
ALLWCH CHI FY HELPU I YSGRIFENNU LLYTHYR?	**RWYF WEDI GWELD LLAWER O DRAIS**

Ar ôl y gweithgaredd yma, trafodwch yr ymarfer gyda'r bobl ifanc a gofynnwch iddynt beth oedd eu prif anawsterau:

- Sut fyddai hyn yn cymharu gyda cheisiwr lloches yn ceisio cyfathrebu?
- Ydy hyn wedi newid eu barn o gwbl?
- Beth maen nhw'n mynd i'w gofio o'r gweithgaredd yma?
- Beth allwn ni ei wneud i gefnogi a helpu ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn ein hysgol a'r gymuned?

Canlyniadau Dysgu

Dylai'r bobl ifanc fod wedi:

- Cael profiad o ffyrdd creadigol o fynegi eu hunain, cyfathrebu heb eiriau a gwaith tîm
- Cydnabod mor bwysig yw cyfathrebu effeithiol
- Ystyried y rhwystredigaeth mae pobl yn ei wynebu yn y DU os nad ydynt yn gallu siarad Saesneg
- Archwilio ffyrdd o gefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn well

7. SYMUD YMLAEN HYD YR ADRAN 1'24

Mae Said yn trafod ei symudiad i lety preswyl y mae'n gorfod ei rannu gyda rhywun sy'n ddieithr iddo.

SYLWADAU ALLWEDDOL:

- **GWEITHIWR CYMDEITHASOL:** Dydy'r dodrefn ddim yn wych, nag ydy? Dydyn nhw ddim wedi glanhau'r cypyrddau.
- **GWEITHIWR CYMDEITHASOL:** Maen nhw'n weddol bendant ynglŷn â phryd y cewch ddod i mewn. Mae pobl yn arwyddo i ddod i mewn – mae'n rhaid iddyn nhw wybod faint o bobl sydd yn yr adeilad, chewch chi ddim cael neb i ddod i aros dros nos.
- **SAID:** Dydw i ddim yn hoffi'r lle o gwbl, ond dim ond gydag un person arall dw i'n rhannu, mae hynny [...] yn rhyddhad.

Pwyntiau Trafod:

- Anogwch y myfyrwyr i ddisgrifio'r llety a'i wendidau yn eu geiriau eu hunain
- A fydden nhw'n barod i fyw mewn lle o'r fath?
- A fydden nhw'n barod i arwyddo i ddod i mewn ac i fynd allan o'u cartrefi eu hunain, hyd yn oed yn 18 oed?
- Sut mae llety Said yn cymharu gyda lle byw'r myfyriwr?
- Sut fyddai'n teimlo i fyw gyda rhywun sy'n hollol ddieithr i chi?

GWEITHGAREDD 1: PWY FYDDAI'N BYW MEWN LLE FEL HYN? (15 MUNUD)

Ar ôl trafod y pwyntiau uchod, dywedwch wrth y myfyrwyr eu bod yn mynd i chwarae rôl Gwerthwr Tai a bod yn rhaid iddynt geisio 'gwerthu' llety Said.

Mae'n rhaid iddynt lunio hysbyseb i fynd yn ffenestr y siop werthu tai neu yn y papur lleol, sy'n cynnwys yr holl fanylion am gartref newydd Said, yn cynnwys y rheolau am beidio â chael ymwelwyr dros nos a bod yn rhaid arwyddo wrth fynd i mewn ac allan!

Atgoffwch y myfyrwyr eu bod yn ceisio cael pobl i brynu neu rentu'r lle felly mae'n rhaid iddynt geisio bod yn bositif am bopeth.

Gwahoddwch y myfyrwyr i rannu eu gwaith. Gofynnwch i'r dosbarth beth roedden nhw'n ei feddwl am y gweithgaredd ac a oedd hi'n anodd bod yn bositif.

Gweithgaredd Ymhelaethu

Gallai'r dasg yma weithio mewn parau neu fel gweithgaredd grŵp cyfan.

Rhowch un myfyriwr yn rôl y gwerthwr tai a'r llall (lleill) yn gwsmeriaid sy'n chwilio am le newydd i fyw.

Yna dechreuwch y chwarae rôl gyda'r gwerthwr tai'n ceisio gwerthu llety Said i'r prynwr posibl, anogwch y myfyrwyr sy'n chwarae rhan y cwsmeriaid i herio a holi'r gwerthwr tai, a'i gwneud hi'n anodd iddyn nhw!

Cyfnewidiwch y rolau er mwyn rhoi'r cyfle i bawb sy'n cymryd rhan gael profiad o'r ddwy ochr.

Dewch â'r gweithgaredd i ben drwy ofyn am farn y myfyrwyr am y gweithgaredd: cysylltwch y gweithgaredd yn ôl at sefyllfa Said a gofynnwch a yw eu teimladau wedi newid a beth maent wedi'i ddysgu.

- A fydden nhw'n symud i mewn?
- Fydden nhw'n prynu'r fflat? Os nad, pam ddim?
- Sut mae'r hyn rydym wedi'i ddysgu yn y fan yma'n herio mythau pobl am geiswyr lloches a ffoaduriaid yn 'dwyn ein cartrefi?'

Canlyniadau Dysgu

Dylai'r bobl ifanc fod wedi:

- Defnyddio sgiliau perswadio, cyfathrebu, ysgrifennu creadigol a chyflwyno
- Dod i wybod mwy am amgylchiadau ymgartrefu'r ceiswyr lloches

CHWALWR CHWEDLAU: O'i gymharu â'u Cynnyrch Domestig Gros y pen, mae gwledydd Affrica'n cymryd y nifer uchaf o ffoaduriaid.

8. CARTREF HYD YR ADRAN 1'50

Mae'r bobl ifanc yn trafod eu barn am y gwledydd maent yn dod ohonynt ac yn rhannu eu barn a'u teimladau ynglŷn â dychwelyd adref.

SYLWADAU ALLWEDDOL:

- **SHAKA HISLOP:** Y ffordd ymlaen yw dod i ddeall ein gilydd, cymryd y pethau da o bob diwylliant, pob gwlad wahanol, a gwneud iddyn nhw weithio er mantais i chi.
- **SUHURA:** Pe bawn i yn fy ngwlad fy hun ac mae lle diogel a chyfraith a threfn, fyddwn i ddim yn dod yma i wneud cais i fod yn geisiwr lloches. Byddwn yn aros gyda fy mhobl.
- **SUHURA:** Ar hyn o bryd fyddwn i ddim yn mynd i Somalia oherwydd dydy'r lle ddim yn ddiogel. Mae'r bobl a laddodd fy nhad ac a anafodd fy mam a chymryd fy chwaer oddi wrthym, bydden nhw'n fy nghymryd i hefyd; maen nhw'n mynd i fy lladd i. Ond os yw'n lle diogel, os oes llywodraeth a datblygiad, rwyf am fynd yn ôl.
- **SAID:** Os bydden nhw'n fy ngorfodi, byddai'n rhaid i mi fynd yn ôl, ond y cwbl rwy'n ei nabod yw'r lle yma, dydy fy nghartref ddim yn gartref i mi bellach.

Pwyntiau Trafod:

- Pa fanteision oherwydd amlddiwylliant all y myfyrwyr eu gweld yn eu bywydau eu hunain?
  - Gofynnwch pwy sy'n mwynhau pizza, bwyd Tsieineaidd, neu gyris?
- Anogwch nhw i ystyried cyfraniadau eraill i gerddoriaeth, teledu, gwisgoedd neu chwaraeon
- Os byddai'r bobl ifanc yn y dosbarth yn gorfod symud allan o Brydain am ei fod wedi mynd yn beryglus, ydyn nhw'n meddwl y byddent yn dod yn ôl gynted ag y gallent neu a fyddai ganddynt ormod o ofn y gallai'r brwydro ddechrau eto?
- Beth fyddai'r bobl ifanc yn ei golli fwyaf am eu cartrefi os byddai'n rhaid iddynt symud i wlad arall?

GWEITHGAREDD 1:
CYFRANIADAU FFOADURIAID (15 MUNUD)

Mae llawer o ffoaduriaid wedi gwneud cyfraniadau enfawr i ddiwylliant Prydain fel rydym yn ei adnabod heddiw: cafwyd dylanwadau enfawr ar y byd Chwaraeon, Gwyddoniaeth, Celf, Llenyddiaeth Pensaernïaeth, Ffilm, Ffasiwn a Cherddoriaeth gan ffoaduriaid o bob rhan o'r byd.

Byddai'r gweithgaredd yma'n gweithio'n dda mewn grwpiau bychain neu mewn parau. Llungopïwch y daflen waith a gwahanu'r adrannau, gan roi cyfres lawn o 'Ffoaduriaid' a 'Chyfraniadau' i bob grŵp.

Gofynnwch i'r myfyrwyr gyfateb y ffoaduriaid gyda'u cyfraniadau.

Ar ôl cyfnod penodol o amser, anogwch y grŵp i roi ateb ac adborth, cywirwch unrhyw gamgymeriadau a thafodwch y pwyntiau hyn:

- A oedd y myfyrwyr wedi synnu am unrhyw beth?
- Ydy hyn wedi herio unrhyw syniadau oedd ganddynt am ffoaduriaid a cheiswyr lloches?
- A all y myfyrwyr enwi unrhyw ffoaduriaid enwog eraill?
- Sut allai'r wybodaeth yma gael ei defnyddio i herio hiliaeth yn erbyn ffoaduriaid a cheiswyr lloches?

Canlyniadau Dysgu

Dylai'r bobl ifanc fod wedi:

- Cael gwell dealltwriaeth o'r cyfraniadau positif mae ffoaduriaid yn eu gwneud
- Defnyddio sgiliau gwneud penderfyniadau a gwaith tîm

ATEBION

1 C; 2 E; 3 B; 4 D; 5 A; 6 H; 7 F; 8 G

Ewch i www.theredcard.org i gael Adnoddau Addysgol ychwanegol a rhai wedi'u diweddaru

FFOADUR

A. **MICHAEL MARKS**
Ffoadur Iddewig a aned yn Rwsia yn 1859. Ceisiodd le diogel yn Lloegr pan oedd yn ddyn ifanc.

B. **SIGMUND FREUD**
Ganed yn 1856 yn Awstria. Dihangodd rhag y Natsïaid a chyrraedd Hampstead, Llundain yn 1938.

C. **JACKIE CHAN**
Cafodd ei eni yn Hong Kong, roedd ei ddau riant yn ffoaduriaid o Ryfel Cartref Tsieina.

D. **MIKA**
Cafodd ei eni yn 1983, ac roedd yn rhaid iddo ddianc o'r rhyfel yn Lebanon.

E. **LOMANA LUA LUA**
Ganed yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo yn 1980 a dihangodd argyfwng gwleidyddol a rhyfel y Congo. Dywedir mai dyma'r rhyfel gyda'r nifer uchaf o farwolaethau ers yr Ail Ryfel Byd. Ceisiodd loches yn y Deyrnas Unedig.

F. **MARIA AUGUSTA VON TRAPP A'I THEULU**
Gorfodwyd nhw i adael eu cartref yn Awstria yn 1938 i ddianc cyfundrefn Hitler, a dianc i'r Eidal.

G. **ALEK WEK**
Cafodd ei geni yn 1977 yn un o'r grŵp ethnig Dinka yn Sudan. Yn 1991 dihangodd hi a rhai aelodau o'i theulu i Brydain i ffoi rhag y rhyfel cartref rhwng y gogledd Mwslimaidd a'r de Cristnogol yn Sudan. Yn ddiweddarach, symudodd i Unol Daleithiau America.

H. **ALBERT EINSTEIN**
Cafodd ei eni yn 1879 i rieni Iddewig a dihangodd rhag Natsïaeth yn yr Almaen i Unol Daleithiau America.

CYFRANIAD

1 Un o'r enwau mwyaf adnabyddus drwy'r byd i gyd ym maes Kung Fu a ffilmiau brwydro. Mae wedi bod yn actio ers yr 1970au ac mae wedi ymddangos mewn mwy na 100 o ffilmiau. Mae'n actiwr, coreograffydd, cyfarwyddwr ffilmiau, cynhyrchydd, crefftwr ymladd a pherfformiwr styntiau sydd wedi cael MBE.

2 Dechreuodd chwarae pêl-droed yn 16 oed, a chafodd ei ddewis yn 17 oed gan y tîm trydedd reng, Colchester United. Mae'n adnabyddus am y ffordd ragorol mae'n dathlu goliau, sy'n cynnwys fflipio a throsbennu'n ôl. Ers hynny mae wedi chwarae i Portsmouth a Newcastle United. Yn 2006, sefydlodd sefydliad i blant amddifad oedd yn cynnwys adeiladu hostel, canolfan chwaraeon ac addysg yn y dref lle mae'n byw i roi gofal ac addysg i'r plant yma.

3 Seiciatrydd a sefydlodd yr ysgol seicoleg seicdreiddiad. Mae'n fwyaf adnabyddus am ei ddamcaniaethu am y meddwl anymwybodol ac am greu'r arfer clinigol o seicdreiddiad. Mae hefyd yn enwog am honni mai chwant rhywiol yw prif ynni ysgogol y bywyd dynol.

4 Canwr-gyfansoddwr caneuon sydd wedi ennill gwobrau ac sydd â chontract recordio gyda Casablanca Records a Universal Music. Daeth y person yma'n enwog tua diwedd 2006 a dechrau 2007 gyda chaneuon llwyddiannus megis 'Grace Kelly', 'Big Girl (You are beautiful)' a 'Relax, Take it easy'.

5 Cyrhaeddodd Loegr heb ddysgu crefft ac yn methu siarad yr iaith. Symudodd i Leeds a dechrau gwerthu pethau mewn gwahanol bentrefi yn Leeds. Ar ôl llwyddo fel yma agorodd stondin ym marchnad awyr agored Leeds. Yna ymunodd ag ariannwr o'r enw Tom Spencer yn 1894 a sefydlu'r cawr adwerthu Marks and Spencer.

6 Ffisegwr damcaniaethol sydd fwyaf adnabyddus am ganfod damcaniaeth perthnasedd ac yn arbennig gywerthedd mas – ynni $E=mc^2$. Yn 1921 derbyniodd y person yma Wobr Nobel mewn Ffiseg.

7 Fel llysfam a matriarch y grŵp canu teuluol, bu ei stori hi a'i theulu am ddianc yn ysbrydoliaeth ar gyfer y sioe gerddorol 'The Sound of Music'.

8 Canfuwyd y person yma mewn marchnad awyr agored yn Llundain yn 1995 yn Crystal Palace, de Llundain, gan sgowt o Models 1. Daeth i sylw'r cyhoedd yn gyntaf yn y fideo gerdd ar gyfer "Golden Eye" gan Tina Turner yn 1995 ac, o'r fan honno aeth i fyd ffasiwn fel un o'i fodelau gorau. Cofrestrodd y person yma gyda Ford Models ac yn 1996 cafodd ymddangos yn y fideo gerdd 'Got Till It's Gone' gan Janet Jackson. Enillodd y teitl 'Model y Flwyddyn' yn 1997 gan MTV.

CHWALWR CHWEDLAU: Y ffoaduriaid Iddewig a ffodd yma o Bortiwgal yn yr 1600au ddaeth â physgod a sglodion yma, sef y pryd Prydeinig traddodiadol.

9. CHWARAE TEG HYD YR ADRAN 2'08

Pêl-droedwyr a phobl ifanc yn trafod effaith bositif amrywiaeth ac amlddiwylliant.

SYLWADAU ALLWEDDOL:

- **THIERRY HENRY:** Edrychwch ar y ffordd mae'r byd erbyn hyn – mae'n fyd agored.
- **SHOLA AMEOBI:** Gall rhai diwylliannau helpu diwylliannau eraill, a derbyn help yn ôl ganddynt. Dyma sut rydym yn tyfu fel pobl.
- **SAID:** Dydych chi ddim yn gwneud bywyd pobl yn well mewn gwirionedd drwy eu hynysu, felly cofiwch drin pobl yn deg oherwydd, yn y pen draw, pobl ydym i gyd.
- **ASHLEY COLE:** Dim ond un hil sydd, a dyna'r hil ddynol, ac yn fy meddwl i, rydym oll gyda'n gilydd.
- **SHOLA AMEOBI:** Mae dweud pethau drwg am bobl a pheidio bod eu heisiau o gwmpas yn beth drwg.

Pwyntiau Trafod:

- Sut hoffai'r disgyblion i bobl eu trin nhw os bydden nhw yn yr un sefyllfa â'r ceiswyr lloches ifanc yma?
- Ym marn y dosbarth, beth allan nhw ei wneud i groesawu ceisiwr lloches sy'n cael eu hanfon i'w hysgol?
- Ym mha ffyrdd allwn ni ddangos parch at bobl eraill?
- Pa ffactorau fyddai'r dosbarth yn eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu sut i drin rhywun neu a ddylent ddod yn ffrindiau gyda rhywun?

GWEITHGAREDD 1:
STORI AL BANGURA (40 MUNUD)

Adroddwch stori Al Bangura i'r dosbarth: gallwch wylio cyfweliadau Al a'i reolwr yn Watford FC, Aidy Boothroyd, o sgrin ddewislen y DVD.

Mae Alhassan 'Al' Bangura yn chwarae yng nghanol cae i Glwb Pêl-droed Watford. Daw Al yn wreiddiol o Sierra Leone, ond dihangodd o'r wlad oherwydd roedd yn mynd i orfod ymuno â chymdeithas gudd yn erbyn ei ewyllys yn dilyn marwolaeth ei dad. Yn ofni am ei fywyd, dihangodd o Sierra Leone a bu'n byw ar strydoedd Gini lle cafodd ei gipio gan ddyn o Algeria a ddaeth ag o i Ewrop i'w werthu i'r fasnach rhyw. Llwyddodd Al ddianc a daeth i'r DU i geisio lloches. Pan oedd yn chwarae pêl-droed mewn parc un diwrnod cafodd ei weld gan sgowt o Glwb Pêl-droed Watford. Cafodd le yn y tîm cyntaf ag yntau ond yn 17 oed.

Cafodd Al ganiatâd i aros ym Mhrydain nes bo'n 18, ond ar ôl ei benblwydd yn 18 oed dechreuodd y Swyddfa Gartref wneud trefniadau i'w alltudio yn ôl i Sierra Leone. Collodd Bangura ei wrandawiad alltudiaeth, ond gwnaeth apêl gyda chefnogaeth enfawr gan Glwb Pêl-droed Watford, ei gefnogwyr o blith y cyhoedd a'r aelod seneddol lleol, Claire Ward. Cafwyd protest hanner amser gan fwy na 18,000 o gefnogwyr cartref ac ymwelwyr yn ystod gêm y clwb yn erbyn Plymouth Argyle yn Vicarage Road. Roedden nhw'n dal posteri gydag wyneb y bachgen 19 oed arnynt, ac o dan y llun roedd y geiriau "Un o'n teulu".

Yn Rhagfyr 2007, cafodd Al Bangura yr opsiwn o wneud cais am drwydded weithio fyddai'n cael ei phrosesu ochr yn ochr â'i apêl am loches ac, yn Ionawr 2008, derbyniodd drwydded sy'n gadael iddo aros yn y DU.

Ewch i www.theredcard.org i gael Adnoddau Addysgol ychwanegol a rhai wedi'u diweddaru

Materion i'w hystyried:

- Oedd hi'n benderfyniad anodd i'r Swyddfa Gartref ei gwneud? Ydy'r myfyrwyr yn cytuno y dylai Al fod wedi cael aros?
- Pa ffactorau a gymerwyd i ystyriaeth?
- Fyddai'r canlyniad wedi bod yn wahanol os na fyddai Al yn bêl-droediwr llwyddiannus?
- All y myfyrwyr feddwl am unrhyw esiamplau o ymgyrchoedd llwyddiannus eraill?

Mae ymgyrchu'n rhan sylfaenol o frwydr unrhyw sefydliad neu grŵp o bobl sy'n brwydro dros achos arbennig. Roedd stori Al Bangura'n dangos bod ymgyrchu'n gallu bod yn ffordd lwyddiannus o drosglwyddo neges, gan sicrhau fod pobl yn gallu lleisio eu barn a'u pryderon a'u bod yn gallu sefyll dros yr hyn maent yn ei gredu.

Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn credu bod gan bawb rôl i'w chwarae i gael gwared â hiliaeth o fyd pêl-droed ac o gymdeithas.

Anogwch y myfyrwyr i lunio cynlluniau gweithredu sy'n disgrifio'r hyn maent yn bwriadu ei wneud er mwyn dangos y cerdyn coch i hiliaeth. Gallwch lawrlwytho templed ar gyfer y cynllun gweithredu o'r PDF ar y DVD neu o www.theredcard.org.

Dyma rai awgrymiadau: dweud wrth 3 o bobl am yr hyn maent wedi'i ddysgu yn y gweithdy DCCiH a'r gwaith dilynol; dangos cylchgrawn DCCiH i deulu a ffrindiau; trefnu cyfarfod gyda'r prifathro i adolygu neu i drafod polisi gwrth-hiliaeth yr ysgol; ysgrifennu llythyrau at aelodau seneddol lleol; gwneud arddangosiadau sydd â neges wrth-hiliol bwerus; herio pobl sy'n defnyddio iaith ac ymddygiad hiliol; dathlu amrywiaeth yn yr ysgol neu yn y gymuned; gwneud ymdrech i ddysgu am ddiwylliannau a chrefyddau eraill; rhannu'r neges DCCiH gyda disgyblion eraill yn y gwasanaeth yn yr ysgol; bathu dywediad ar gyfer tîm pêl-droed yr ysgol yn ymwneud â chynnwys pawb.

Canlyniadau Dysgu

Dylai'r bobl ifanc fod wedi:

- Ystyried y rolau y gallent eu chwarae yn y frwydr yn erbyn hiliaeth
- Cael eu pweru i weithredu i atal hiliaeth yn eu hysgol a'r gymuned leol
- Pennu'r angen am ddathlu a chroesawu amrywiaeth
- Defnyddio sgiliau trafodaeth, cynllunio a gwerthuso

CWESTIYNAU A OFYNNIR YN AML

PAM FO CYMAINT O GEISWYR LLOCHES YN DOD I'R DU?
Nid y DU yw prif ganolfan lloches y byd. Dim ond 2 y cant o boblogaeth ffoaduriaid y byd sy'n cael lle ym Mhrydain. Mae 80% o'r 11.4 miliwn o ffoaduriaid y byd yn dianc i wledydd sy'n datblygu; a'r rhai sy'n gymdogion i'w gwledydd eu hunain yw'r rhain fel arfer. Mae'r mwyafrif o ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael lle yng ngwledydd tlotaf y byd, a hynny'n aml mewn gwersylloedd tlawd mewn ardaloedd anghysbell ar y ffiniau. Mae hyn yn cael effaith ddifrifol ar yr amgylcheddau lleol ac adnoddau naturiol.

OS YW CEISWYR LLOCHES YN CHWILIO AM LE DIOGEL, PAM NA WNÂN NHW AROS YN Y WLAD DDIOGEL GYNTAF Y MAENT YN EI CHYRRAEDD?
Mae'r mwyafrif o geiswyr lloches yn aros yn y wlad sydd drws nesaf i'w gwlad nhw, ond yn aml iawn mae'r gwledydd yma'n dlawd ac yn methu eu helpu. Yn aml, mae'r rheiny sy'n gallu fforddio'r pris yn talu i gludwyr arbennig eu cymryd i rywle diogel, a does ganddyn nhw fawr o reolaeth dros ba wlad y cânt eu cymryd iddi. Mae'r rheiny sy'n dod i'r DU yn bwrpasol yn dewis gwneud hynny'n aml iawn am fod ganddynt gyfeillion neu deulu yma, am eu bod yn siarad Saesneg a/neu am fod cysylltiadau rhwng eu gwlad nhw a'r DU (e.e. hen gysylltiadau trefedigaethol). Dydy'r ffaith fod rhywun wedi teithio drwy wledydd eraill ar eu ffordd i'r DU ddim yn gwneud eu cais yn llai dilys.

YDY CEISWYR LLOCHES YN DOD YMA I FANTEISIO AR EIN SYSTEM FUDD-DALIADAU?
Nid yw ceiswyr lloches yn dod i'r DU i hawlio budd-daliadau. Yn wir, ychydig iawn mae'r mwyafrif ohonyn nhw'n ei wybod am systemau budd-daliadau neu loches y DU cyn iddyn nhw gyrraedd.

Nid yw ceiswyr lloches yn cael gweithio am y 12 mis cyntaf wrth iddynt wneud cais am le. Maen nhw'n gorfod dibynnu ar fudd-daliadau, sydd ond 70% o'r cymhorthdal incwm arferol. Dydyn nhw ddim yn cael unrhyw bethau ychwanegol fel ffonau symudol nag unrhyw fudd-daliadau eraill sydd ar gael i drigolion y DU, e.e. Lwfans Byw i'r Anabl.

CHWALWR CHWEDLAU: Mae'r rhan fwyaf o geiswyr lloches yn byw mewn tlodi ac yn dioddef iechyd gwael a phrinder bwyd. (Ffynhonnell: Y Cyngor Ffoaduriaid ac Oxfam, Tlodi a lloches yn y DU, Gorffennaf 2002)

Mae nifer o geiswyr lloches eisiau gweithio a'u cefnogi eu hunain ac, yn aml iawn, maen nhw'n gwneud gwaith gwirfoddol wrth i'w ceisiadau gael eu prosesu.

YDY CEISWYR LLOCHES YN DOD YMA DIM OND ER MWYN CAEL SWYDD?

Mae'n rhaid i geiswyr lloches fod ag ofn erledigaeth, a hynny am resymau dilys, allai gynnwys erledigaeth am resymau hiliol, crefyddol, oherwydd eu cenedligrwydd, aelodaeth mewn grŵp cymdeithasol arbennig, neu oherwydd eu barn wleidyddol.

Mae'r syniad fod pob ceisiwr lloches yn fewnfudwyr economaidd yn hollol anghywir. Dydyn nhw ddim yn dod o'r gwledydd tlotaf yn y byd fel arfer; maen nhw'n dod o wledydd sy'n dioddef gwrthdaro a cham-drin hawliau dynol.

YDY CEISWYR LOCHES YN CYMRYD EIN TAI?

Mae ceiswyr lloches yn cael tai gwag y mae landlordiaid yn ei chael hi'n anodd canfod tenantiaid iddynt. Does ganddyn nhw ddim hawl cael tŷ cyngor. Dydy'r ceisiwr lloches byth yn berchen ar y tŷ a'r cyfarpar, mae'n rhaid iddynt adael unwaith y bydd eu hachos wedi'i benderfynu ac mae'r teulu nesaf yn dod i mewn i ddefnyddio'r tŷ a'r cyfarpar.

YDY CEISWYR LLOCHES YN DEFNYDDIO DOGFENNAU FFUG?

Mae rhai'n gwneud hynny. Mae'n anodd iawn dianc rhag erledigaeth heb ddefnyddio dogfennau ffug. Ond, mae Erthygl 31 y confensiwn ar ffoaduriaid 1951 yn atal llywodraethau rhag cosbi ffoaduriaid sy'n defnyddio dogfennau ffug. Cofiwch, does dim ffasiwn beth â cheisiwr lloches anghyfreithlon; mae gennym i gyd yr hawl i ddianc rhag erledigaeth.

DYDY CEISWYR LLOCHES DDIM YN CYFRANNU UNRHYW BETH

Mae gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches amrywiaeth enfawr o sgiliau, a phan gânt y cyfle i weithio, maent yn gwneud cyfraniadau sylweddol i economi a diwylliant y DU. Mae pobl sy'n cael eu geni tu allan i'r DU, yn cynnwys ceiswyr lloches, yn cyfrannu 10% yn fwy i'r economi mewn trethi ac yswiriant gwladol nag y maent yn ei ddefnyddio mewn budd-daliadau a gwasanaethau cyhoeddus.

Y brasamcan yw bod 30,000 o swyddi wedi cael eu creu yng Nghaerlŷr gan ffoaduriaid Asiaidd o Uganda ers 1972. (Ffynhonnell: The Observer, 'They fled with nothing but built a new empire', 11 Awst 2002)

YDY CEISWYR LLOCHES YN DERFYSGWYR?

Mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ni chafwyd unrhyw dystiolaeth bod ceiswyr lloches yn fwy tebygol o droseddu nag unrhyw un arall yn y gymuned, a nodwyd bod ceiswyr lloches yn fwy tebygol o ddioddef trosedd nag ydynt o droseddu. (Canllaw Plismona ceiswyr lloches Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) o Loegr, Cymru a Gogledd Iwerddon 2003).

Tynnir llun pob ceisiwr lloches, cymerir eu holion bysedd, gwneir gwiriad diogelwch ohonynt ac maent yn derbyn cardiau ID. Mae llawer ohonynt yn gorfod mynd i gofrestru ar gyfnodau penodol, rheolaidd mewn gorsafoedd heddlu neu mewn canolfannau sgrinio mewnfudwyr wrth i'w cais dderbyn ystyriaeth. Gellir atal ceiswyr lloches rhag gadael yr adeilad unrhyw bryd. Mae'n annhebygol iawn y byddai terfysgwr yn dewis dod i mewn i'r wlad mewn ffordd sy'n dod â nhw'n syth i sylw'r awdurdodau, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt roi eu holion bysedd iddynt a bod perygl y gallent gael eu cadw dan glo.

Ffynonellau Ychwanegol: Y CYNGOR FFOADURIAID www.refugeecouncil.org.uk, GWEITHREDU I FFOADURIAID www.refugee-action.org

UCHOD: CEFNOGWYR WATFORD YN DANGOS CEFNOGAETH I AL BANGURA

CWIS

1. MAE'R MWYAFRIF O GEISWYR LLOCHES YN DOD O WLEDYDD DIOGEL MEWN GWIRIONEDD.

ANGHYWIR

Mae'r mwyafrif o geiswyr lloches yn dod o wledydd sydd wedi'u rhwygo'n ddarnau gan ryfel, neu maen nhw'n ffoi rhag cyfundrefnau creulon. Y 4 gwlad y daeth y mwyafrif o'r ceiswyr lloches ohonynt i Brydain yn hanner cyntaf 2008 oedd Afghanistan, Irac, Zimbabwe ac Iran.

2. MAE'R DU YN CYMRYD MWY NA'R GYFRAN DEG O GEISWYR LLOCHES.

ANGHYWIR

Yn 2007, y DU oedd y 14eg gwlad yn Ewrop o ran nifer y ceisiadau am loches a dderbyniwyd mewn perthynas â'i phoblogaeth gyfan, a dim ond 14% o ffoaduriaid y byd a gymerwyd gan Ewrop.

3. DIM OND 2% O FFOADURIAID A CHEISWYR LLOCHES Y BYD Y MAE PRYDAIN YN EU CYMRYD.

CYWIR

Mae 80% o'r 11.4 miliwn o ffoaduriaid y byd yn dianc i wledydd sy'n datblygu; a'r rhai sy'n gymdogion i'w gwledydd eu hunain yw'r rhain fel arfer.

4. MAE LLAWER O GEISWYR LLOCHES YN AELODAU O GRWPIAU O DROSEDDWYR.

ANGHYWIR

Dydy ceiswyr lloches ddim yn fwy tebygol o fod mewn gang na neb arall, ond maent yn fwy tebygol o ddioddef trosedd.

5. GALL CEISWYR LLOCHES GAEL EU CADW DAN GLO HYD YN OED OS NAD YDYNT WEDI TROSEDDU.

CYWIR

Gall y Swyddfa Gartref ddewis cadw ceiswyr lloches, yn cynnwys plant, dan glo am gyfnod mor hir ag y mae'n ei ddewis. Ym mis Ebrill 2008 roedd oddeutu 1640 o geiswyr lloches dan glo.

6. DOES DIM FFASIWN BETH Â CHEISWYR LLOCHES ANGHYFREITHLON.

CYWIR

Os ydych wedi gwneud cais am loches mae gennych yr hawl gyfreithiol i aros yn y wlad hon nes daw'r penderfyniad terfynol am eich achos.

7. MAE CEISWYR LLOCHES YN NEIDIO'R CIW AM DAI.

ANGHYWIR

Yn wahanol i bobl amddifad eraill, dydy ceiswyr lloches ddim yn cael hawlio tŷ gan Awdurdod Lleol ond mae'r Swyddfa Gartref yn rhoi cartref dros dro iddynt.

8. MAE 9 ALLAN O BOB 10 CEISIWR LLOCHES YN DWEUD CELWYDD; DYDYN NHW DDIM ANGEN LLOCHES GO IAWN.

ANGHYWIR

Er ei bod hi'n anodd iawn profi bod rhywun yn ffoi erledigaeth, mae o leiaf 21 % o'r hawliau am loches yn cael eu derbyn ac mae hyn yn codi 21% arall o ganlyniad i apeliadau.

9. DYDY CEISWYR LLOCHES DDIM YN CAEL GWEITHIO YN Y DU.

CYWIR

Mae ceiswyr lloches sengl yn derbyn £42.14 yr wythnos ac maent yn colli'r taliad hwn os nad ydynt yn byw lle mae'r Llywodraeth yn dweud wrthyn nhw am fyw. Mae hyn 30% yn is na'r ffin tlodi.

10. MAE GAN BAWB YN Y BYD YR HAWL I HAWLIO LLOCHES.

CYWIR

Mae Erthygl 14 yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol yn gwarantu'r hawl i bawb, yn eich cynnwys chi, i ffoi rhag erledigaeth.

PRIF NODDWYR DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH:

I'w ddefnyddio gyda'r DVD
LLE DIOGEL

cyfieithu a chysodi
WORDSapart.co.uk
translating & typesetting